

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl allweddol canolraddol level 2 yn darparu sylfaen eang ym maes ymarfer ac astudio busnes a rheolaeth. Bydd myfyrwyr yn archwilio sut mae sefydliadau'n gweithio drwy edrych ar eu swyddogaethau mewnol (gweithrediadau, cyllid a marchnata) ac yna yn archwilio'r amgylchedd allanol a sut mae cyd-destun economaidd a gwleidyddol yn helpu i lywio'r ffordd y mae busnesau'n ymateb i heriau byd-eang.

Drwy ddefnyddio cyfuniad o destunau, sain, fideos a gweithgareddau rhyngweithiol ar-lein, bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau hanfodol i astudio a gweithio mewn sefydliadau sector busnes, cyhoeddus neu wirfoddol. Rhoddir sylw arbennig i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol. Caiff myfyrwyr hefyd eu cyflwyno i fapio meddwl fel techneg bosibl er mwyn eich helpu i fynegi eich syniadau a'ch creadigrwydd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- feddu ar radd gyntaf mewn Astudiaethau Busnes o leiaf, neu radd nad yw'n radd busnes yn ogystal â chymhwyster ôl-raddedig mewn pwnc sy'n ymwneud â busnes (e.e. byddai gradd gyntaf mewn Seicoleg neu Beirianeg a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Rheoli yn addas). Caiff ymgeiswyr sydd â chymhwyster Meistr mewn maes perthnasol (e.e. MBA, M.Ed.) bwysoliad ychwanegol (asesir ar sail y ffurflen gais).
- darparu tystiolaeth o brofiad o ddysgu a/neu hyfforddi oedolion (caiff profiad sylweddol o hyfforddi a hwyluso yn y gweithle ei ystyried fel profiad amgen yn lle addysgu ffurfiol, er y caiff pwysoliad ychwanegol ei roi i ymgeiswyr sydd â phrofiad o addysgu AU) (asesir hyn ar sail y ffurflen gais ac yn y cyfweiliad).
- amlinellu unrhyw brofiad perthnasol o ddefnyddio cyfryngau ar-lein cydamseredig ac anghydamseredig mewn amgylchedd addysgu a dysgu, neu ddealltwriaeth ohonynt. (Caiff ymgeiswyr sy'n defnyddio cyfryngau masnachol cyfatebol yn y gweithle eu hystyried, er y caiff mwy o bwysoliad ei roi i ymgeiswyr sydd â phrofiad o addysgu drwy Live Y Brifysgol Agored, Blackboard, Collaborate neu unrhyw gyfryngau cyfatebol eraill a ddefnyddir mewn SAU) (asesir hyn ar sail y ffurflen gais ac yn y cyfweiliad).
- dangos profiad busnes perthnasol neu ymgynghori ar ran busnes drwy gymhwyso sgiliau damcaniaethol yn y gweithle. Caiff pwysoliad ychwanegol ei roi i ymgeiswyr sy'n gallu dangos profiad ymarferydd perthnasol mwy diweddar (o fewn y 5 mlynedd diwethaf). (asesir hyn ar sail y ffurflen gais ac yn y cyfweiliad).
- dangos hygredd academaidd mewn amrywiaeth eang o feysydd Astudiaethau Busnes cyffredinol. Gan mai modiwl cyffredinol yw hwn, rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu amlinellu arbenigedd addysgu mewn o leiaf 3 maes e.e. cyd-destun economaidd a gwleidyddol, cyllid, adnoddau dynol, ymddygiad sefydliadol, marchnata, gweithrediadau, moeseg fusnes, globaleiddio. (Caiff mwy o bwysoliad ei roi i ymgeiswyr â mwy o feysydd.) (asesir ar sail y ffurflen gais ac yn y cyfweiliad).
- amlinellu'r modd rydych wedi cefnogi myfyrwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu, yn enwedig sgiliau astudio a nodwyd ar gyfer: ysgrifennu academaidd, llythrennedd rhifol,

llythrennedd digidol a meddwl yn feirniadol (asesir hyn ar sail y ffurflen gais ac yn y cyfweiliad).

- meddu ar brofiad o addysgu busnes i is-raddedigion

Disgwylir i chi wneud y canlynol:

Cynnal tiwtorialau wyneb yn wyneb (a/neu'r amser cyfatebol ar-lein).

- Hwyluso fforymau ar-lein a gweithio gydag Adobe Connect (a gaiff ei ddefnyddio yn lle Live Y Brifysgol Agored o fis Hydref 2017). Bydd datblygiad staff ar gael i ymgeiswyr, fel y bo'n briodol.

Gwybodaeth ychwanegol

Dylid cynnwys elfennau craidd manyleb gyffredinol y person, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y canlynol yn benodol:

- Profiad o weithio gyda charfannau myfyrwyr amrywiol ac ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol.
- Argaeledd a hygyrchedd i fyfyrwyr.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da yn Saesneg.

Nodiadau Proses Ychwanegol i ymgeiswyr:

Caiff y broses gyfweld ei chynnal dros sawl cam i ymgeiswyr:

1. **Y rhestr fer gychwynnol a gwaith cyn cyfweiliad:** Cysylltir ag ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer drwy e-bost i roi gwybod iddynt am y cam nesaf sef y cam paratoi cyn cyfweiliad, a byddant yn cael cyfres o dasgau cyn cyfweiliad gan gynnwys rhai samplau marcio ac ymarfer efelychu senario gwaith. Fel arfer caiff ymgeiswyr wythnos i gwblhau'r tasgau hyn. At hynny, cynigir cyfweiliad wyneb yn wyneb i'r ymgeiswyr hyn mewn swyddfa yn Y Brifysgol Agored (ni fydd ymgeiswyr sy'n methu'r ymarferion cyn cyfweiliad yn mynd ymlaen i'r cam cyfweiliad a chânt eu hysbysu os caiff cyfweiliad ei ganslo).
2. **Adobe Connect** – Mae Adobe Connect yn adnodd addysgu gorfodol ar B207. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n dangos safon benodadwy yn y cyfweiliad fynychu sesiwn Adobe Connect fer a chyflawni cymhwysedd arni cyn y gellir eu penodi.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7

Noder, yn ogystal â'r aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtor (TMA) bydd hefyd aseiniad rhyngweithiol a gaiff ei farcio gan gyfrifiadur (iCMA) a gyflwynir gan fyfyrwyr